Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn a Gwynedd

## Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 286A2015

**Diben y ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon ar ffurf ddrafft a ddarperir yn gyfrinachol. Dim ond er mwyn cadarnhau cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt y'i darperir.

**Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac erys felly. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel y caniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn a Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Andy Bruce, Nigel Griffiths a Huw Lloyd Jones dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

DRAFT

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ar ôl dechrau araf, mae i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ffocws cliriach ac mae'n gwella ei drefniadau llywodraethu ond mae angen parhau i wneud cynnydd ar y cyflymder a welwyd yn ddiweddar | 7 |
| Araf fu'r cynnydd o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddechrau oherwydd diffyg cydgydgysylltu a'r ffaith ei fod yn canolbwyntio ar fanylion gweithredol ar draul materion strategol allweddol | 7 |
| Mae adolygiad manwl wedi arwain at well ymrwymiad gan bob partner, amcanion uchelgeisiol a threfniadau llywodraethu symlach ond erys risgiau pwysig i fomentwm y Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 8 |


DRAFT

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1. Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus, ers sawl blwyddyn, wedi dod ynghyd i ffurfio Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) mewn ymgais i gydgysylltu a sicrhau manteision i ddinasyddion drwy atgyfnerthu trefniadau cydweithio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd BGLl Ynys Môn a Gwynedd ym mis Ebrill 2013 drwy uno'r ddau BGLl blaenorol.
2. Cynrychiolir amrywiaeth o bartneriaid o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol a'r byd academaidd ar Grŵp Gweithredol y BGLl fel y dangosir yn Arddangosyn 1.

### Arddangosyn 1

Aelodau Gweithredol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Aelod | Sector |
|---|---|
| **Grŵp Cynefin** | Annibynnol – Cymdeithas Tai |
| **Heddlu Gogledd Cymru** | Y Cyhoedd |
| **Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru** | Y Cyhoedd |
| **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** | Y Cyhoedd |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | Y Cyhoedd |
| **Prifysgol Bangor** | Addysg Uwch |
| **Grŵp Llandrillo Menai** | Addysg Bellach |
| **Medrwn Môn** | Asiantaeth annibynnol sy'n rhoi cymorth a chyngor i sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn Ynys Môn |
| **Mantell Gwynedd** | Cyngor Gwirfoddol Sirol sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r trydydd sector yng Ngwynedd |
| **Un Llais Cymru** | Yn cynrychioli Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** | Y Cyhoedd |
| **Ymddiriedolaeth Prawf Cymru** | Rhanbarthol Cyhoeddus |
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | Y Cyhoedd |
| **Cyngor Gwynedd** | Y Cyhoedd |
| **Llywodraeth Cymru** | Rhanbarthol Cyhoeddus |

**3.** Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau hyn yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus ledled Ynys Môn a Gwynedd, tra bod rhai yn cwmpasu Gogledd Cymru gyfan ac ardaloedd ehangach. Drwy ddod ag uwch reolwyr o'r sefydliadau hyn ynghyd, mae'r BGLl yn cynnig cyfleoedd ehangach i bartneriaid ddeall eu hagendâu ei gilydd, annog cydweithredu ac ychwanegu gwerth at raglenni gwaith sefydliadau unigol.

**4.** Er bod BGLlau wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, yn aml nid yw gwaith partneriaeth yn cael ei ddatblygu'n ddigonol yn y sector cyhoeddus. Mae partneriaid yn aml yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ond prin yw'r partneriaethau sydd â ffocws clir ar gyflawni canlyniadau gwell ar y cyd.

Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau[1], a nododd '….*er mwyn gwneud gwahaniaeth, fod yn rhaid i ni gydweithio yn ogystal â siarad â'n gilydd. Rhaid canolbwyntio ar agenda gyffredin i wella canlyniadau, gan roi pwyslais ar flaenoriaethau, cyflymder a pherfformiad*.' Nododd y canllawiau hefyd fod gan awdurdodau lleol rôl arweiniol glir wrth gefnogi BGLlau.

**5.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cychwyn cylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol a ddechreuodd yn 2013-14. Mae'r asesiadau corfforaethol yn cynnwys thema sy'n archwilio effeithiolrwydd partneriaethau a threfniadau cydweithio yn benodol. Daeth asesiad corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn i ben ym mis Ebrill 2015, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer asesiad corfforaethol Cyngor Gwynedd wedi'u cyhoeddi eto. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn bwydo i mewn i Adroddiadau Gwella Blynyddol y cynghorau ar gyfer 2015.

**6.** Felly mae'r adolygiad hwn yn bwysig i asesu cynnydd y BGLl fel agwedd ar gydymffurfiaeth y ddau gyngor â Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Edrychodd yr adolygiad ar y canlynol:

- gwaith y BGLl hyd yma; a'r
- cynnydd y mae wedi'i wneud o ran ailsefydlu ei weledigaeth, ei gyfeiriad strategol a'i flaenoriaethau ac asesu effeithiolrwydd tebygol ei drefniadau i sicrhau canlyniadau gwell i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn.

**7.** Rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Mawrth 2015, cyfwelwyd â swyddogion ac Aelodau o'r ddau gyngor, partneriaid y BGLl a staff o'r Uned Bartneriaeth ar y cyd. Hefyd, arsylwyd cyfarfodydd craffu'r Cyngor a chyfarfodydd y BGLl ac archwiliwyd cofnodion o gyfarfodydd blaenorol y BGLl a dogfennau ategol. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar ba un a yw BGLl Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio'n effeithiol i gyflawni canlyniadau gwell i bobl leol.

**8.** Nodwyd gennym, **ar ôl dechrau araf, fod i'r BGLl ffocws cliriach a'i fod yn gwella ei drefniadau llywodraethu ond bod angen parhau i wneud cynnydd ar y cyflymder a welwyd yn ddiweddar.**

[1] *Cydamcanu – Cydymdrechu,* Llywodraeth Cymru: Mehefin 2012. http://gov.wales/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/sharedpurpdel/?skip=1&lang=cy



DRAFT

9. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- araf fu'r cynnydd o fewn y BGLl ar y cyd i ddechrau oherwydd diffyg cydgysylltu a'r ffaith ei fod yn canolbwyntio ar fanylion gweithredol ar draul materion strategol allweddol; ac
- mae adolygiad manwl wedi arwain at well ymrwymiad gan bob partner, amcanion uchelgeisiol a threfniadau llywodraethu symlach ond erys risgiau pwysig i fomentwm y BGLlau.

10. Mae'r BGLl yn ymwybodol bod angen atgyfnerthu rhai o'i drefniadau ac mae ganddo gynlluniau ar gyfer gwneud hynny. Bwriedir i'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'n hadolygiad ategu neu atgyfnerthu'r camau gwella sydd eisoes yn cael eu cymryd neu sydd wrthi'n cael eu datblygu.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Cynigion ar gyfer gwella**

C1 Sicrhau bod digon o barhad yn y bartneriaeth er mwyn cynnal a chefnogi trefniadau cydweithredol os bydd aelodau gweithredol y BGLl yn newid.

C2 Adolygu'r Cynllun Integredig Unigol er mwyn ymgorffori blaenoriaethau newydd y BGLl ac yn benodol:

- nodi cyfraniadau partneriaid unigol at flaenoriaethau a ffrydiau gwaith yn glir, yn ogystal â'r atebolrwydd y maent yn ei rannu drostynt;
- darparu dolenni defnyddiol, sy'n cyfeirio at ganlyniadau a chynlluniau corfforaethol a rennir gan bartneriaid, a allai gynnwys hyperddolenni gwefannau; a
- darparu gwybodaeth am y ffyrdd y gall y cyhoedd a rhanddeiliaid ymgysylltu â'r BGLl er mwyn llywio blaenoriaethau yn y dyfodol.

C3 Darparu mynediad gwefan cyfredol â chysylltiadau clir at waith a chynnydd y BGLl ar wefannau'r ddau Gyngor, neu drwy wefan benodol ar gyfer y bartneriaeth.

# Adroddiad manwl

## Ar ôl dechrau araf, mae i’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ffocws cliriach ac mae’n gwella ei drefniadau llywodraethu ond mae angen parhau i wneud cynnydd ar y cyflymder a welwyd yn ddiweddar

### Araf fu’r cynnydd o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i ddechrau oherwydd diffyg cydgydgysylltu a’r ffaith ei fod yn canolbwyntio ar fanylion gweithredol ar draul materion strategol allweddol

**11.** Sefydlwyd BGLl ar y cyd ym mis Ebrill 2013, ar ôl uno dau BGLl Gwynedd ac Ynys Môn a arferai fod ar wahân. Arweiniodd newidiadau i’r strwythur at ddatblygu un Uned Bartneriaeth a oedd yn gyfrifol am gydgysylltu gweithgarwch y BGLl ledled y ddwy sir, gyda Chyngor Gwynedd yn cynnal y trefniant. Roedd y BGLl wedi’i ailstrwythuro yn cynnig cyfleoedd i bartneriaid gydweithio’n fwy effeithiol ar draws ardaloedd dwy sir, tra’n haneru nifer y cyfarfodydd ar gyfer partneriaid rhanbarthol, megis gwasanaeth yr Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Tân a’r gwasanaeth Prawf.

**12.** Fodd bynnag, oherwydd anawsterau a wynebwyd yn ystod trefniadau cychwynnol y BGLl newydd bu’r cynnydd yn arafach na’r disgwyl. Arweiniodd gwendidau o ran y ffordd yr oedd y BGLl yn cael ei gydgysylltu a’r reoli at rai partneriaid yn credu ei fod yn canolbwyntio’n rhy gul ar faterion lefel isel a gweithredol, yn lle canolbwyntio ar faterion strategol. O ganlyniad, roedd nifer o bartneriaid yn teimlo nad oedd amcanion y BGLl yn berthnasol iddynt hwy, a arweiniodd at gyfraddau presenoldeb is mewn cyfarfodydd ffurfiol. Gwaethygodd y sefyllfa, gyda rhai partneriaid yn dirprwyo cyfrifoldeb i aelodau o staff ar lefel is, a wnaeth wanhau prosesau gwneud penderfyniadau ac a oedd yn rhwystro cynnydd y BGLl.

**13.** Cydnabu’r cynghorau a’r partneriaid nad oedd y sefyllfa yn gynaliadwy a bod angen gwneud newidiadau sylweddol er mwyn i’r BGLl wneud cynnydd a hyrwyddo cyfleoedd gwell i bartneriaid gydweithio. Dilynwyd hyn gan gam seibiant ac adolygu, a oedd yn cynnwys penodi Rheolwr Partneriaeth newydd i gydgysylltu’r BGLl, helpu i lunio Cynllun Integredig Unigol ar y cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a chytuno ar y cyd ar flaenoriaethau newydd i’r BGLl.

## Mae adolygiad manwl wedi arwain at well ymrwymiad gan bob partner, amcanion uchelgeisiol a threfniadau llywodraethu symlach ond erys risgiau pwysig i fomentwm y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

**14.** Ar ddechrau 2014, yn ystod y cam 'seibiant ac adolygu', gwnaeth y BGLl nifer o benderfyniadau pwysig, gan gynnwys y canlynol:

- datblygu uchelgais newydd sy'n canolbwyntio'n fwy ar gau'r bwlch ariannu mewn gwasanaethau cyhoeddus;
- nodi cydbwysedd priodol rhwng rheoli'r galw yn effeithiol a gwario yn y byrdymor, ac ymyriadau amlasiantaeth effeithiol a'r effaith ar y galw am wasanaethau yn y tymor canolig i hirdymor;
- datblygu nifer fach o flaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni dros y ddwy flynedd nesaf; ac
- adolygu strwythurau'r bartneriaeth a threfniadau llywodraethu'r BGLl.

**15.** Yn ystod camau cynnar y BGLl ar y cyd, roedd cyswllt rheolaidd rhwng partneriaid yn anghyson, heblaw am drafodaethau mewn cyfarfodydd ffurfiol lle na wnaed fawr ddim cynnydd. Fodd bynnag, yn sgil y trefniadau newydd, sefydlodd Rheolwr y Bartneriaeth gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd ag aelodau unigol o'r BGLl er mwyn rhoi cymorth mewn perthynas â chamau nesaf y broses o ailddatblygu ei weledigaeth a'i flaenoriaethau newydd. Croesawodd aelodau'r bartneriaeth y fenter syml ond effeithiol hon, a oedd yn hyrwyddo gwell cyfathrebu a mwy o ymddiriedaeth, ymrwymiad a chefnogaeth. Ar ôl hynny, gwellodd cyfraddau presenoldeb yng nghyfarfodydd y BGLl a bu unigolion yr oedd ganddynt fwy o ddylanwad o fewn eu sefydliadau eu hunain yn cynrychioli partneriaid.

**16.** Er mwyn helpu'r BGLl i ddatblygu ei flaenoriaethau a'i ffrydiau gwaith newydd, cyflogwyd ymgynghoriaeth a hwylusydd annibynnol a mabwysiadwyd dull *Meddwl drwy Systemau*[2] er mwyn datblygu'r rhaglen waith. Cynhaliwyd uwchgyfarfod o'r BGLl ym mis Mehefin 2014 er mwyn helpu i lywio uchelgais a gweledigaeth y bartneriaeth yn y dyfodol. Yn ystod ein hadolygiad, roedd y rhan fwyaf o bartneriaid y BGLl yn cytuno bod y cam seibiant ac adolygu wedi bod yn angenrheidiol er mwyn ailystyried gweledigaeth y bartneriaeth, tra roedd yr uwchgyfarfod wedi hyrwyddo gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau a diwylliannau pob partner, gan greu llwyfan cyffredin y gallai'r BGLl weithio tuag ato yn fwy effeithiol.

**17.** Gwnaed cynnydd pellach yn ystod y misoedd canlynol, gan gynnwys cyhoeddi'r Cynllun Integredig Unigol ar y cyd (y Cynllun), sef '*Cryfhau cymuned yng Ngwynedd ac Ynys Môn (2013-2017)'* ym mis Awst 2014. Ar ôl hynny, cytunodd y BGLl ar dair blaenoriaeth newydd sy'n gliriach ac yn symlach ac a ddatblygwyd ar y cyd â'r ddau gyngor a'u partneriaeth ac sy'n eu hategu. Y blaenoriaethau yw:

- Pobl hŷn
- Cymunedau cynaliadwy

[2] Mae Meddwl drwy Systemau yn ddull o ddatblygu modelau i hyrwyddo dealltwriaeth o ddigwyddiadau, patrymau ymddwyn sy'n arwain at y digwyddiadau a 'r strwythur sylfaenol sy'n gyfrifol am batrymau ymddwyn.



DRAFT

- Creu teuluoedd cryf

**18.** Erbyn mis Tachwedd 2014, roedd datblygiadau pellach yn cynnwys penodi Cadeirydd newydd ar y BGLl a chyflwyno egwyddorion gweithredu newydd y cytunwyd arnynt gan bob partner. Mae’r Cadeirydd yn cynrychioli sefydliad annibynnol, gan ddod â gwybodaeth am nifer o faterion sy’n cyd-fynd â blaenoriaethau newydd y BGLl, megis tai a materion cymdeithasol ac economaidd ynghyd. Credwn fod penodi cadeirydd annibynnol yn dangos bod y cynghorau a’r partneriaid yn benderfynol o weithio gyda sectorau eraill a defnyddio eu sgiliau.

**19.** Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd o fewn y BGLl ar wahân i bwyllgorau craffu’r ddau gyngor a Phwyllgor Gweithredol y BGLl. Er nad yw’n drefniant delfrydol, cydnabu’r cynghorau a’r partneriaid fod angen moderneiddio trefniadau llywodraethu’r BGLl. Ffurfiwyd grŵp gorchwyl a gorffen amlbartner er mwyn helpu i ddatblygu arfarniad opsiynau o dri model craffu, gan werthuso eu cryfderau a’u gwendidau, tra’n ystyried effaith newidiadau posibl mewn llywodraeth leol. Yn dilyn y broses arfarnu opsiynau, cytunodd y BGLl ar un model llywodraethu a chraffu (Panel Craffu BGLl Gwynedd ac Ynys Môn) ym mis Ionawr 2015. Nid yw’r trefniadau craffu wedi’u cadarnhau eto ond byddant yn cynnwys aelodau o’r ddau gyngor, y sector cyhoedd a’r trydydd sector, ac aelodau cyfetholedig. Credwn fod y model yn dod ag arbenigedd a gwybodaeth allanol o amrywiaeth o bartneriaid ac yn eu cynrychioli. Mae’r model yn ystyried arfer da ac mae wedi denu sylw Llywodraeth Cymru a BGLlau cyfagos. Cytunwyd ar dair ffrwd waith ar gyfer cyflawni’r blaenoriaethau, gydag aelodau unigol y BGLl yn cymryd cyfrifoldeb am oruchwyliaeth a chynnydd fel mesur dros dro.
Ers hynny, mae’r BGLl wedi cyflogi’r Ganolfan Craffu Cyhoeddus[3] i roi mewnbwn a chymorth wrth i’r trefniadau llywodraethu a’r trefniadau ar gyfer y ffrydiau gwaith ddatblygu a chael eu hymgorffori.

**20.** Yn fwy diweddar, cynhaliodd y BGLl ddau weithdy *Meddwl drwy Systemau*, lle y dechreuodd partneriaid ddatblygu’r ffrydiau gwaith er mwyn cefnogi’r blaenoriaethau newydd a chyfrannu atynt. At hynny, mae Cadeirydd a phartneriaid y BGLl yn rhwydweithio’n agosach â phartneriaid rhanbarthol a BGLlau eraill ledled Gogledd Cymru i nodi materion cyffredin er mwyn helpu i ailalinio blaenoriaethau cyffredin.

**21.** Roedd y cam seibiant ac adolygu yn ymarferol, yn ogystal â bod yn angenrheidiol, am ei fod wedi rhoi cyfle i ail-lunio blaenoriaethau’r BGLl, creu mwy o ymrwymiad a’r newid y ffordd y mae’n gweithredu. O ganlyniad, mae’r ddau gyngor, y partneriaid a’r BGLl mewn gwell sefyllfa nag o’r blaen i gyfrannu at waith partneriaeth mwy effeithiol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- ystyried goblygiadau cynnar Bil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol[4] a’r posibilrwydd y caiff llywodraeth leol ei had-drefnu;
- canolbwyntio ar atebion i dorri’r cylch o ymddygiad a phatrymau rhai unigolion a chymunedau, a all gynyddu’r galw am wasanaethau partneriaid a gwneud y gwasanaethau hynny’n fwy bregus; a

DRAFT

[3] Mae’r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn elusen gofrestredig i hyrwyddo craffu cyhoeddus, atebolrwydd, tryloywder a chyfranogiad er budd y cyhoedd.
[4] Bil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru).

- phwysigrwydd cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, megis Parc Cenedlaethol Eryri, Medrwn Môn, Mantell Gwynedd a Phrifysgol Bangor, a all roi cymorth a mewnbwn gwerthfawr er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau newydd tra'n lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus prif ffrwd.

**22.** Mae'r BGLl wedi cynllunio ei flaenraglen waith o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016, sy'n cynnwys y canlynol:

- adolygiad blynyddol o'r BGLl a'r Cynllun Integredig Unigol;
- cymeradwyo'r ffrydiau gwaith allweddol â blaenoriaeth;
- cyflwyno rhaglen datblygu ar gyfer y BGLl; a
- chwblhau strwythur a threfniadau llywodraethu'r BGLl.

**23.** Fodd bynnag, mae nifer o faterion y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau y cynhelir momentwm y BGLl. Fel y nodwyd yn gynharach yn ein hadroddiad, cyhoeddwyd y Cynllun Integredig Unigol cyn i'r BGLl ddatblygu ei flaenoriaethau newydd. Fodd bynnag, mae angen i'r Cynllun adlewyrchu'r sefyllfa fwyaf diweddar, gan gynnwys cyfraniadau partneriaid unigol a'r atebolrwydd y maent yn ei rannu am y blaenoriaethau a'r ffrydiau gwaith newydd. Dylai'r Cynllun hefyd gynnwys gwybodaeth fanylach am y ffordd yr ymgysylltir â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Dylai nodi cynnydd y BGLl yn glir ar wefannau'r cynghorau a'r partneriaid, neu ar wefan benodol, am nad yw gwybodaeth gyfredol ar gael ar-lein ar hyn o bryd.

**24.** Mae'r ddau gyngor a'r partneriaid wedi gweithio'n galed gyda'i gilydd er mwyn gwella eu trefniadau partneriaeth, gan ddatblygu blaenoriaethau a rennir a rôl arwain gliriach. Aed i'r afael ag anawsterau a wynebwyd yn ystod camau cynnar y BGLl, a arweiniodd at fwy o ymrwymiad a chefnogaeth gan bartneriaid ond mae'n rhy gynnar i fesur unrhyw gyfraniad neu fanteision sylweddol i'r cyhoedd. Gallai'r trefniadau newydd gyflawni canlyniadau gwell i'r cyhoedd, ond mae rhai risgiau y mae'n rhaid eu rheoli'n briodol er mwyn cynnal momentwm y BGLl. Mae ffocws clir ar gydnerthedd a gallu yn sgil y cyhoeddiad diweddar y byddai nifer o aelodau Gweithredol y Bwrdd a Rheolwr y Bartneriaeth naill ai'n ymddeol neu'n ymadael, a allai atal y BGLl rhag cyflawni ei nodau. Felly, mae angen i'r bartneriaeth sicrhau parhad ymhlith ei haelodau a pharhau i newid ar yr un cyflymder er mwyn sicrhau cynnydd cynaliadwy, tra'n dangos gwerth am arian a chyfrannu manteision i'r cyhoedd.

DRAFT

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk